## ❖ Meseia'r Nadolig

*Ac wedi geni'r Iesu ym Methlehem Jwdea, yn nyddiau*
*Herod frenin, wele, doethion a ddaethant o'r dwyrain i*
*Jerwsalem, gan ddywedyd, Pa le y mae'r hwn a anwyd yn*
*Frenin yr Iddewon? canys gwelsom ei seren ef yn y dwyrain,*
*a daethom i'w addoli ef.*
(Mathew 2:1–2) (*BWM*)

Trwy sioe bapur sidan amryliw y llan,
A gwreichion y tinsel ar daen ym mhob man,
Feseia'r Nadolig, Oleuni y Byd,
Tywynned y Seren i'n dallu i gyd.

O'r farchnad frasterog lawn ffwndwr, lawn blys,
Â'r gwerthwr teganau bargeiniwn mewn brys,
Feseia'r Nadolig, rho daw ar y ffair,
A dangos y Trysor a aned o Fair.

Os crac sy'n y clychau, os brau ydyw'r rhaff,
Mae metel ein bomiau Cristnogol yn saff;
Feseia'r Nadolig, cyn ffrwydro'r holl fyd,
Rho inni'r Tangnefedd sy'n gariad i gyd.

**Robin Williams**